Ffôn: 01792 845489
Ebost: YGG.Gellionnen@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan: www.ygg-gellionnen.co.uk

Heol Gellionnen
Clydach
Abertawe
SA6 5HE

……………………………………………………………………………………………………………………………………………………

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Wrth inni ddechrau Tymor yr Haf, hoffwn estyn croeso cynnes iawn i chi gyd yn ôl i YGG Gellionnen. Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau gwyliau'r Pasg ac yn barod am dymor prysur a chyffrous o ddysgu, cynnydd a llwyddiant. Mae llawer i edrych ymlaen ato y tymor hwn – ac efallai ychydig o dywydd braf!

Mae hwn yn dymor arbennig o bwysig i'r ysgol wrth inni symud ymlaen i gyfnod newydd cyffrous. Fel y gwyddoch, byddaf yn gweithredu fel Pennaeth dros Dymor yr Haf, ac edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda'n plant, staff, rhieni a'r gymuned ehangach wrth inni barhau i symud yr ysgol ymlaen gyda'n gilydd.

Rydym hefyd yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Mrs Sarah Proctor-Morgan o YGG Llwynderw yn ymuno â ni fel ein Pennaeth newydd. Edrychwn ymlaen yn fawr at ei chroesawu i gymuned Gellionnen ac at y bennod gyffrous nesaf yn hanes ein hysgol.

Fel bob amser, bydd ein gwaith yn cael ei arwain gan **Werthoedd Gellionnen**:

- **Byddwch yn Barchus**
- **Byddwch yn Ddiogel**
- **Byddwch yn Barod**
- **Siaradwch Gymraeg**

Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i atgoffa'r plant o'r disgwyliadau hyn wrth inni ddechrau'r tymor newydd.

## Ein Dysgu y Tymor Hwn

Rydym wedi cychwyn Tymor yr Haf gyda dwy uned ddysgu gyffrous a deniadol:

- Bydd **Derbyn i Flwyddyn 3** yn archwilio **O'r Pridd i'r Plât**
- Bydd **Blwyddyn 4 i Flwyddyn 6** yn astudio **Ein Byd Bregus**

Edrychwn ymlaen at weld chwilfrydedd, creadigrwydd a gwaith gwych y plant wrth iddynt ddatblygu eu dysgu drwy'r themâu hyn.

Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i bob disgybl a gwblhaodd y gwaith cartref dros y gwyliau i lunio poster. Mae gennym gymaint o blant creadigol yn ein plith, ac roedd hi'n hyfryd gweld eu gwaith arbennig.

## Datblygu Ethon ein Hysgol

Yn ystod y tymor hwn, bydd **Gareth Lewis o Let Us Navigate** yn gweithio gyda nifer o ysgolion ar draws Abertawe, gan gynnwys YGG Gellionnen. Mae'r sefydliad yn cefnogi ysgolion i ddatblygu diwylliant cadarnhaol, ethos cryf, ymddygiad da, diogelwch emosiynol ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y gwaith cyffrous hwn.

## Presenoldeb ac Amserlondeb

Mae presenoldeb da yn hanfodol er mwyn i blant wneud cynnydd, datblygu cyfeillgarwch a mwynhau bywyd yr ysgol yn llawn. Mae pob diwrnod yn cyfrif, ac mae colli gwersi yn gallu cael effaith sylweddol dros amser.

Cofiwch fod y gloch yn canu am **8:50yb**, a **dylai pob plentyn gyrraedd cyn** hynny er mwyn peidio â cholli amser dysgu gwerthfawr.

Gall Clwb Brecwast fod yn ffordd wych o sefydlu trefn foreol gadarnhaol, gyda brecwast da a dechrau tawel i'r diwrnod.

## Nodyn Atgoffa Pwysig

- Dewch â **photel ddŵr** i'r ysgol bob dydd.
- **Dim gemwaith** i'w wisgo i'r ysgol, heblaw os yw wedi'i ganiatáu'n benodol.
- **Dim teganau** i'w dod â nhw i'r ysgol.
- Mae gennym ddewis o adnoddau synhwyraidd a "fidget" yn yr ysgol ar gyfer y plant hynny sydd eu hangen. Nid oes angen dod ag eitemau o'r cartref.

## Prydau Ysgol am Ddim

Er bod pob plentyn oed cynradd bellach yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim, os ydych yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer **Prydau Ysgol am Ddim ar sail budd-daliadau (FSM)**, gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r ffurflen berthnasol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i dderbyn cyllid ychwanegol pwysig i gefnogi ein disgyblion.

## Dyddiadau i'ch Dyddiadur

- Byddwn yn cynnal cyfle i ddathlu gwaith a chynnydd ein plant. Ar gyfer **Blwyddyn 1 ac uwch**, bydd cyfle i rieni archebu slot 20 munud i ymweld â'n hystafell gymunedol er mwyn edrych ar lyfrau gwaith eich plentyn a thrafod eu cynnydd gyda nhw. Bydd dolen archebu yn cael ei hanfon atoch yn fuan.
- Bydd Gareth Lewis hefyd yn cynnal sesiwn i rieni yn ystod y tymor hwn. Byddwn yn cadarnhau'r dyddiad ac yn rhannu manylion pellach yr wythnos hon.

Diolch yn fawr, fel bob amser, am eich cefnogaeth barhaus. Gyda'n gilydd, edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus a hapus arall yn YGG Gellionnen.

Yn gywir,

Nia Owen
Pennaeth Gweithredol

Ffôn: 01792 845489
Ebost: YGG.Gellionnen@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan: www.ygg-gellionnen.co.uk

Heol Gellionnen
Clydach
Abertawe
SA6 5HE

……………………………………………………………………………………………………………………………………………………………

Dear Parents and Carers,

As we begin the Summer Term, I would like to extend a very warm welcome back to everyone at YGG Gellionnen. We hope you enjoyed the Easter break and are ready for a busy and exciting term of learning, progress and success. There is much to look forward to this term – and perhaps even some finer weather too!

This is a particularly important term for the school as we move forward into an exciting new chapter. As you know, I will be Acting Headteacher for the Summer Term, and I am very much looking forward to working with our pupils, staff, parents and wider community as we continue to move the school forward together.

We are also delighted to announce that Mrs Sarah Proctor-Morgan from YGG Llwynderw will be joining us as our new Headteacher. We look forward greatly to welcoming her to the Gellionnen community and to the next exciting chapter in the life of our school.

As always, our work will be guided by the **Gellionnen Values**:

- **Be Respectful**
- **Be Safe**
- **Be Ready**
- **Speak Welsh**

We kindly ask for your support in reminding children of these expectations as we begin the new term.

## Learning This Term

We have started the Summer Term with two exciting and engaging learning units:

- **Reception to Year 3** will be exploring **From Soil to Plate**
- **Years 4 to 6** will be investigating **Our Fragile World**

We look forward to seeing the children's curiosity, creativity and excellent work through these themes.

I would also like to thank all pupils who completed the holiday homework to design a poster. We have so many creative children in our school community, and it was wonderful to see their fantastic work.

## Developing Our School

During this term, **Gareth Lewis from Let Us Navigate** will be working with a number of schools across Swansea, including YGG Gellionnen. The organisation supports schools to develop positive culture, strong ethos, good behaviour, emotional safety and positive attitudes to learning. We are very much looking forward to this exciting work.

## Attendance and Punctuality

Good attendance is essential for children to make progress, build friendships and fully enjoy school life. Every day counts, and missed learning time can have a significant impact over time.

Please remember that the bell rings at **8:50am**, and **all children should arrive before this time** so that they do not miss valuable learning time.

Our Breakfast Club can also be a great way to establish a positive morning routine, with a healthy breakfast and calm start to the day.

## Important Reminders

- Please bring a **water bottle** to school each day.
- **No jewellery** should be worn to school unless specifically permitted.
- **No toys** should be brought into school.
- We have a range of sensory and fidget resources in school for children who require them. There is no need to bring such items from home.

## Free School Meals

Although free school meals are available to all primary-aged pupils, if you believe you may be eligible for **benefit-related Free School Meals**, we kindly ask that you complete the relevant form. This allows the school to receive important additional funding to support our pupils.

## Dates for the Diary

- We will be offering an opportunity to celebrate children's work and progress. For **Year 1 and above**, parents will be able to book a 20-minute slot to visit our community room to look through their child's workbooks and discuss their progress with them. A booking link will follow shortly.
- Gareth Lewis will also be leading a parent session during this term. We will confirm the date and share further details this week.

Thank you, as always, for your continued support. Together, we look forward to another happy and successful term at YGG Gellionnen.

Yours sincerely,

Nia Owen
Acting Headteacher